CYPE(6)-23-22 - Papur i'w nodi 18

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JMEWL/3042/22

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Seneddplant@senedd.cymru

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

10 Tachwedd 2022

Annwyl Jayne a Huw

Diolch ichi am eich llythyrau, dyddiedig 3 a 4 Hydref 2022, ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodais ar y Bil Ysgolion (y Bil) ar 7 Gorffennaf, a’m llythyr at y Llywydd, dyddiedig 19 Gorffennaf. Fel y gwyddoch, er i Gyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi ddod i ben ar 18 Gorffennaf, nid yw'r Bil eto wedi mynd ymlaen i Drydydd Darlleniad yr Arglwyddi. Yn sgil penodi Prif Weinidog newydd y DU, mae fy swyddogion wrthi’n ceisio eglurder ynghylch a fydd y Bil yn symud yn ei flaen. Byddaf yn ysgrifennu atoch cyn gynted ag y bydd gennyf fwy o wybodaeth. Yn y cyfamser, rwyf am ymateb i'ch ymholiadau ynghylch y materion canlynol:

**Dadansoddiad o Gymhwysedd Deddfwriaethol**
Gallaf eich sicrhau ein bod wedi asesu'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Adrodd Tŷ’r Arglwyddi ac fel y'i cyhoeddwyd ar 18 Gorffennaf, ac rydym wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw newidiadau sy'n galw am osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol pellach.

**Cymal 52 (2) -** *Darpariaethau trosiannol, arbed a chanlyniadol*
Rwy'n hyderus bod y ddarpariaeth wedi ei geirio mewn modd penodol iawn (o ganlyniad i’r Bil) ac na fydd, yn fy marn i, yn galluogi Gweinidogion Llywodraeth y DU i wneud unrhyw newidiadau sylweddol i ddeddfwriaeth ddatganoledig.

**Cyfarfod Cyngor Gweinidogion Addysg y DU**
Jayne, fe wnaethoch chi ofyn yn arbennig pryd y bydd y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal. Rhagwelir y bydd cyfarfod nesaf Cyngor Gweinidogion Addysg y DU yn cael ei gynnal ar 9 Rhagfyr 2022 gan Lywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, nid wyf yn rhagweld yr angen i godi'r

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bil, ond rwy'n aros am eglurder ynghylch a fydd y Bil yn symud yn ei flaen drwy Senedd y DU.

Yn gywir

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language